Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31 Hydref 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Hydref. Rwy'n falch bod eich llythyr yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran sefydlogi a gwella cynaliadwyedd ariannol o fewn GIG Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roeddwn yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ymateb yn fanwl i'ch sylwadau a, gobeithio, rhoi sicrwydd ichi ynghylch cynnydd a rhagolygon mwy cynaliadwy. Er bod nifer fach o sefydliadau yn dal i orwario, mae'r mwyafrif bellach yn cynllunio ar y sail bod ganddynt gydbwysedd ariannol yn y flwyddyn gyfredol ac ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn dynnu sylw at rai o'r dangosyddion allweddol sy'n ategu'r asesiad hwn:

- Fel y nodais yn fy mhapur tystiolaeth, gan ystyried addasiadau tebyg at ei debyg, roedd diffyg cyffredinol y GIG yn 2017-18 ychydig yn is nag yn 2016-17.

- Disgwyliwn welliant pellach yn sefyllfa'r GIG yn 2018-19. Ym mis Mai, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid rheolaidd o £27 miliwn ar gyfer BIP Hywel Dda ar ôl cwblhau'r adolygiad cwbl gynhwysfawr, ac rydym wedi darparu £10 miliwn ychwanegol i BIP Caerdydd a'r Fro i gefnogi ei gynlluniau. Mae rhagolygon cyfredol y GIG yn welliant sylweddol o gymharu ag alldro 2017-18.

- Er gwaethaf y diffygion a gronnwyd gan sefydliadau unigol sy'n rhan o'r GIG, roedd cyllideb iechyd Llywodraeth Cymru wedi'i mantoli eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r gyllideb wedi'i mantoli'n gyffredinol ym mhob blwyddyn ariannol ers i system gyllid newydd y GIG gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2014. Fel arwydd o sefydlogrwydd ariannol cynyddol, gostyngodd y cymorth yn ystod y flwyddyn o gronfeydd canolog Llywodraeth Cymru ar gyfer diffygion y GIG yn sylweddol o £76

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000258289
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan • website: www.wales.gov.uk

miliwn yn 2016-17 i £35.2 miliwn yn 2017-18. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen unrhyw gyllid canolog yn 2018-19 i gefnogi'r diffygion sy'n weddill.

- Mae sefydliadau'r GIG wedi gwneud gwerth dros £1.5 biliwn o arbedion effeithlonrwydd ar y cyd ers i'r sefydliadau newydd gael eu creu ar ddechrau'r degawd hwn. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, canfuwyd dros ddwy ran o dair o'r arbedion hyn (71%) ar sail reolaidd. Disgwylir i'r gyfran hon gael ei chynnal yn 2018-19.

- Mae ffocws cynyddol hefyd ar gyflawni arbedion yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, mae 39% o gynlluniau arbedion eisoes wedi'u cyflawni erbyn canol y flwyddyn, o'i gymharu â 32% yn 2017-18.

- Er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i sefydliadau'r GIG mewn her ariannol, sefydlwyd Uned Cyflenwi Cyllid, sy'n cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bellach mae gan yr Uned 9 aelod o staff, gan gynnwys trosglwyddo 4 aelod o staff sy'n arwain y broses gostio a chudd-wybodaeth fusnes yn GIG Cymru. Yn ogystal â darparu rôl her a chymorth, yn enwedig ar gyfer y sefydliadau sy'n destun proses uwchgyfeirio, mae'r Uned yn arwain datblygiad Fframwaith Effeithlonrwydd ar gyfer sefydliadau'r GIG ac mae'n chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r agenda gofal iechyd yn seiliedig ar Werth.

Buddsoddi mewn Gwasanaethau

Mae'r dystiolaeth a gawsoch gan rai Byrddau Iechyd bod ganddynt fuddsoddiad cyfyngedig er mwyn cynnal cydbwysedd ariannol yn gwrthgyferbynnu'n sylweddol â'n hasesiad ni o'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu i sefydliadau'r GIG:

- Yn ystod y flwyddyn gyfredol, rydym eisoes wedi darparu cyllid ychwanegol o £173 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer costau chwyddiant craidd a gwella perfformiad, ac mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi cymorth cynnar o £20 miliwn yn ddiweddar ar gyfer cynlluniau'r gaeaf. Cyn bo hir, byddwn hefyd yn dyrannu £80 miliwn o arian ychwanegol i dalu costau'r dyfarniadau cyflog a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer staff y GIG. Daw cyfanswm y pecyn hwn o fuddsoddiadau newydd i £273 miliwn yn y flwyddyn gyfredol.

- Mae ein cynlluniau gwariant drafft ar gyfer 2019-20 yn parhau i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen gyda chynnydd ychwanegol o £220 miliwn yn y cyllid ar gyfer 2019-20. Yn ychwanegol at hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £287 miliwn ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, i dalu costau dyfarniadau cyflog y GIG a bwrw ymlaen â gweithredu *Cymru Iachach*.

- Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y dyraniadau cyntaf o'r Gronfa Trawsnewid gwerth £100 miliwn i'w buddsoddi mewn datblygu a gweithredu modelau gofal newydd a gymeradwywyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

- Bydd hyn yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad ychwanegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y llywodraeth hon i dros un biliwn o bunnoedd erbyn mis Mawrth 2020.

Capasiti a Galluogrwydd

Rydym wedi darparu cymorth i gryfhau capasiti a galluogrwydd i nifer o Fyrddau Iechyd sy'n destun camau uwchgyfeirio, sy'n werth dros £7.4 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol

ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys staff gweithredol ychwanegol, capasiti cynllunio, cefnogi rhaglenni Datblygu Sefydliadol a chyllido cymorth allanol.

Yn ychwanegol at hynny, mae swyddogion o'r Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi darparu eu harbenigedd i helpu sefydliadau i ddatblygu eu cynlluniau cyflawni, ac felly hefyd yr Uned Gyflawni. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys dadansoddi data, cynlluniau profi a gweithredu fel "ffrind beirniadol". Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r GIG ar ddatblygu rhaglen academaidd i gryfhau sgiliau cynllunio yn y GIG. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Gynllunio ar gyfer Dysgu i wella sgiliau a gallu cynllunio ar draws holl sefydliadau'r GIG. Nod y rhaglen yw codi proffil ac enw da cynllunio fel proffesiwn a datblygu'r gronfa dalent. Mae'r Rhaglen yn cynnwys ystod o gyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys: Digwyddiadau Dysgu Cymru Gyfan sefydledig sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn; cyfres o ddosbarthiadau meistr, sy'n canolbwyntio ar gynllunio capasiti a galw; cynhadledd ar gynllunio hirdymor sydd i'w chynnal y gwanwyn nesaf. Mae proses dendro ar y gweill i benodi partner academaidd i lunio a chyflwyno diploma ôl-radd mewn cynllunio gofal iechyd. Bydd y diploma yn arwain at hyd at 125 o fyfyrwyr yn dilyn y cwrs dros gyfnod o 5 mlynedd.

Gwnaed defnydd cyfyngedig o sgiliau gan sefydliadau mwy llwyddiannus i gefnogi sefydliadau eraill wrth iddynt fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'r cymorth hwn yn elfen allweddol o'n hethos colegol yn GIG Cymru. Mae'r dull ymgynghorol mewnol hwn yn cefnogi trosglwyddo sgiliau a phrofiad ar draws y GIG yng Nghymru, ac mae'n darparu manteision o ran datblygu sgiliau sydd o fudd i'r GIG yn gyffredinol. Credwn fod y profiad yn helpu unigolyn yn ogystal â'u sefydliad i dyfu a datblygu, yn ogystal â bod yn werthfawr iawn i'r sefydliad y maent yn ei helpu. Fodd bynnag, mae hyn yn digwydd i raddau cyfyngedig.

Tynnodd yr Adolygiad Seneddol sylw at y gofyniad i gynyddu gallu'r system i drawsnewid, a swyddogaeth Weithredol y GIG yr ymrwymwyd iddi yn Cymru Iachach fydd yn bennaf cyfrifol am hyn. Mae dwyn ynghyd y capasiti sydd eisoes ar gael o fewn y system, er enghraifft Cydweithrediaeth y GIG ac Uned Gyflenwi'r GIG, yn rhoi cyfleoedd i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol a chefnogi gwelliant o ran darparu gwasanaethau a pherfformiad gyda'r nod o drawsnewid y system.

Fformiwla Gyllido

Rwy'n cydnabod nad yw Cam 2 yr Adolygiad o Ddyrannu Adnoddau wedi datblygu mor gyflym ag y byddai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi ei ddymuno. Mae Grŵp Cynghori Technegol, wedi'i gadeirio ar y cyd gan y Prif Swyddog Meddygol a Chyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cael ei greu i fwrw ymlaen â Cham 2 yr Adolygiad o Ddyrannu Adnoddau. Mae aelodaeth y grŵp hefyd yn cynnwys Cadeirydd a Chyfarwyddwr Cyllid sy'n cynrychioli'r GIG yn ogystal ag economegydd iechyd y Brifysgol.

Mae'r Grŵp wedi adolygu'r fformiwlâu presennol a ddefnyddir mewn gwledydd eraill ac wedi nodi nifer o elfennau cyffredin, megis poblogaeth, demograffeg (Oedran/Rhyw) ac anghenion (gan gynnwys anghenion heb eu diwallu), a rhai elfennau anghyffredin megis natur wledig, ethnigrwydd a grymoedd y farchnad. Mae'r Grŵp wedi cymeradwyo ac yn gweithio ar sail dull deuol o brofi fformiwla amgen a chomisiynu cyngor annibynnol ar ddatblygu fformiwla, fel a ganlyn:

- Y gwaith cychwynnol oedd poblogi a phrofi ar lefel uchel y fformiwla a ddefnyddir gan y GIG yn yr Alban. Fformiwla dryloyw a modiwlaidd yw hon lle y gellir profi a dilysu pob elfen unigol, er enghraifft oedran/rhyw neu anghenion. Defnyddiwyd poblogaeth

bresennol Cymru a mesurau eraill o fewn y profion, gan gynnwys manylion oedran/rhyw gwasanaethau aciwt y Sefydliad Iechyd o'u hadroddiad *"The path to sustainability"* a gyhoeddwyd yn 2016. Mae'r profion cychwynnol yn dangos bod y fformiwla yn gweithio i Gymru, ar lefel uchel, ac mae rhagor o brofion pellach ar lefel fwy gronynnol yn cael eu cynnal ar bob elfen.

- Yn amodol ar werthusiad llwyddiannus, bydd y Grŵp yn ystyried a yw'r fformiwla hon yn ddigon cadarn i'w defnyddio i ddechrau dosbarthu dyraniadau disgresiynol ychwanegol yn y dyfodol rhwng byrddau iechyd. Bydd y Grŵp yn ystyried hyn yn erbyn a ddylid parhau i ddefnyddio'r hen fformiwla, sef fformiwla anghenion uniongyrchol "Townsend", gan nodi nad yw'r hen fformiwla, i ddosbarthu twf disgresiynol, wedi'i diweddaru ers 2014 yn dilyn diflaniad Arolwg Iechyd Cymru yn 2015, sef mesur o anghenion allweddol yn yr hen fformiwla.

Dylid nodi bod y fformiwla wedi'i defnyddio fel fformiwla ddosbarthu i rannu cyfran o'r cyllid twf yn deg i Fyrddau Iechyd Lleol yn hytrach na phenderfynu ar ddosbarthu cyfanswm yr arian. Er bod rhai Byrddau Iechyd Lleol wedi nodi y gallai'r fformiwla bresennol greu anfantais iddynt, mae'r Byrddau Iechyd i gyd yn cydnabod bod y fformiwla ond yn cael ei chymhwyso i'r cyllid twf nid i gyfanswm y cyllid. Felly, mae p'un a ydynt yn cael mantais neu anfantais yn sgil hyn yn ymylol o ran y gyfran o dwf disgresiynol.

Ers cyhoeddi adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield (2014) a'r Sefydliad Iechyd (2016) mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn y gwasanaeth iechyd. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cydnabod y pwysau demograffig cyffredinol a phwysau eraill a wynebir gan Fyrddau Iechyd Lleol. Roedd y polisi sydd eisoes yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad gwreiddiol yr Athro Townsend, sef Targedu Afiechyd a gyhoeddwyd yn 2001: “the transition to new target shares should be achieved through redistributing the annual growth in NHS resources. Thus no area will receive less than their current level of resources and those areas which are furthest from their target share will receive the highest rate of growth.”

Yn unol â pholisi ers i'r fformiwla anghenion uniongyrchol gael ei defnyddio gyntaf yn 2003, byddai unrhyw symudiad tuag at gyfran fformiwla darged yn cael ei gyflawni dros amser yn dibynnu ar lefel y twf disgresiynol sydd ar gael ar gyfer cydraddoli. Felly, mae dyraniadau'r Bwrdd Iechyd Lleol yn seiliedig yn bennaf ar ddyraniadau hanesyddol yn ogystal ag ychwanegiadau dros amser, gan gynnwys cyfran twf fformiwla a dyraniadau penodol, nid ar ddyraniad a gyfrifir ar sail fformiwla.

Yn dilyn datblygu'r fformiwla newydd yn llawn, a'i phrofi ac ymgysylltu â hi, bydd angen ystyried yr opsiynau gweithredu. Bydd yr opsiynau gweithredu hyn yn amrywio o'r polisi cyfredol, sef y byddai unrhyw symudiad tuag at gyfran fformiwla darged yn cael ei gyflawni dros amser yn dibynnu ar y lefel o dwf disgresiynol sydd ar gael ar gyfer cydraddoli, i bolisi o ddosbarthu cyfanswm yr arian yn uniongyrchol ar sail fformiwla.

Uwchgyfeirio

Bu'r trefniadau uwchgyfeirio yn effeithiol wrth ganolbwyntio ar gamau gweithredu mewn sefydliadau sy'n wynebu heriau sylweddol. Mae'r trefniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus, gan gynnwys ceisio barn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru fel partneriaid allweddol yn y trafodaethau tairochrog.

Bu'r trefniadau hyn yn llwyddiannus iawn wrth gefnogi WAST ar ei daith tuag at wella. Yn 2014 cafodd WAST ei uwchgyfeirio i drefniadau *monitro manylach* yn dilyn pryderon am ei berfformiad o ran amseroedd ymateb. Roedd gwaith gyda WAST o dan y fframwaith uwchgyfeirio yn allweddol o ran caniatáu i'r sefydliad ddychwelyd i *drefniadau monitro arferol* ym 2016.

Mae gwelliannau i'w gweld ym Myrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Abertawe Bro Morgannwg, wedi'u hysgogi gan gymorth uwchgyfeirio a her. O ran Hywel Dda, nodwyd yr angen am adolygiad ariannol cwbl gynhwysfawr drwy'r ymyrraeth a dargedwyd, gyda'r canlyniad bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nifer o bwysau sy'n unigryw i'r sefydliad hwnnw ac yn darparu cyllid rheolaidd sy'n gyfraniad sylweddol tuag at gyflawni cynaliadwyedd. Mae'r broses Dairochrog yn caniatáu ystyried sefydliadau y gellid eu dychwelyd i drefniadau monitro arferol, a disgwyliaf i hynny gael ei adolygu yn y cyfarfod nesaf.

Bu cynnydd yn fwy anodd ei gyflawni ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ar yr anawsterau sylweddol sy'n parhau. Ym mis Gorffennaf 2018 cytunodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad pellach o £6.8 miliwn o dan y trefniadau mesurau arbennig i gryfhau llywodraethu ac atebolrwydd drwy gydweithio â chlinigwyr a phartneriaid i gyflawni gwelliannau sylweddol mewn gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, ar draws yr holl arbenigeddau acíwt.

Bydd yr arian yn cynyddu capasiti a galluogrwydd y bwrdd iechyd yn y meysydd canlynol:

- Bydd £4.6 miliwn (£2.3 miliwn y flwyddyn) yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r prosesau cyflawni, cynllunio a gwella gwasanaethau yn y strwythur gofal eilaidd gweithredol.
- Bydd £1.7 miliwn (£892,000 yn 2018/19 ac £826,000 yn 2019/20) yn cefnogi'r broses o ymdrin â chleifion drwy gryfhau galluogrwydd y rhaglen o ran rheoli a dadansoddi.
- Bydd £0.5 miliwn yn cynyddu capasiti o fewn yr adran iechyd meddwl ac anableddau dysgu drwy ymestyn y prosiect peilot 'Rhaglen Gofal a Chymorth Cywir'. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt drwy'r pecyn gofal cywir, yn yr amgylchedd cywir ac yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau yn amserol pan fydd yn glinigol briodol i wneud hynny.

Dechreuodd y Cadeirydd newydd, Mark Polin, ar ei swydd ym mis Medi ac mae eisoes wedi cyflwyno cyfeiriad clir ac arweinyddiaeth ar gyfer gwella, gan gynnwys rheolaeth well ac ymatebion sy'n canolbwyntio ar oresgyn y problemau a'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn nodi ac yn cofnodi gwersi a ddysgwyd o ran trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrraeth, gan gynnwys ein rôl o ran llywio ein meddylfryd a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr angen i gydnabod yr heriau arweinyddiaeth a diwylliannol arwyddocaol nad oeddent wedi'u datrys yn llwyddiannus yn flaenorol mewn sefydliadau, sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru gapasiti a galluogrwydd i ymgysylltu a pharatoi i gefnogi'r trefniadau ar ben galwadau eraill a'r perygl o gadw bwrdd iechyd o dan drefniadau uwchgyfeirio i safon uwch na gweddill GIG Cymru cyn y gellir ei ddychwelyd i drefniadau monitro arferol. Rwy'n credu bod yr hyn a ddysgwyd o brofiad Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi helpu sefydliadau eraill sydd ar lefelau is o uwchgyfeirio i wella'u perfformiad hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir bod ganddi rôl o ran arwain y system wrth ysgogi gwell perfformiad, o fewn trefniadau llywodraethu GIG Cymru. Disgwyliwn i sefydliadau'r GIG gyflawni eu cyfrifoldebau, gydag arweiniad, her adeiladol a chymorth gan Lywodraeth Cymru lle bo angen. Mae nodi arwyddion cynnar bod sefydliad yn cael anhawster yn

hanfodol o ran caniatáu ymyrraeth ar gam cynnar, er mwyn i ni allu gweithio gyda sefydliadau i wneud gwelliannau cyn i'r sefyllfa waethygu. Nid yw hyn bob amser yn golygu cynnydd cyflym, a byddai'n gyfeiliornus credu y gellir mynd i'r afael â heriau sylweddol yn y tymor byr bob tro. Mae angen digon o amser er mwyn meithrin cynaliadwyedd drwy ymyrraeth briodol, sy'n gefnogol a heriol, os am sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori'n llawn yn niwylliant sefydliad.

Mae dysgu o weithredu'r fframwaith uwchgyfeirio wedi, er enghraifft, llywio'r cynigion ar gyfer Gweithrediaeth y GIG a nodir yn Cymru Iachach. Bydd hyn yn ail-gydbwyso'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r GIG, ac yn darparu mwy o gapasiti i weithio gyda sefydliadau sy'n wynebu her i sicrhau gwelliannau. Mae myfyrio ar y camau a gymerwyd gyda sefydliadau sy'n wynebu her hefyd yn llywio datblygiad ein fframwaith gweithredu, gan gynnwys sut rydym yn cymell gwelliannau, y sancsiynau sydd ar gael i ni, a sut i ddefnyddio'r cydbwysedd cywir rhwng y ddau.

Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r fframwaith uwchgyfeirio ochr yn ochr â sefydlu Gweithrediaeth y GIG i sicrhau bod y trefniadau'n cyd-fynd â'r tirlun sefydliadol ac atebolrwydd ehangach wrth i ni gyflawni Cymru Iachach.

Cynllunio Hirdymor
Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob sefydliad gael strategaethau sy'n nodi eu huchelgais ar gyfer yr hirdymor. Dylai hyn gynnwys strategaethau clinigol yn yr ystyr ehangaf, ynghyd â strategaethau galluogi allweddol sy'n mynd i'r afael â gofynion y gweithlu neu eu strategaeth ystadau er enghraifft. Dylid datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig o fewn cyd-destun y strategaethau hirdymor hyn, a nodi'r camau y bydd y sefydliad yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf wrth geisio cyflawni ei nodau strategol.

Gydag amserlen tair blynedd rhoddir digon o sicrwydd a hyblygrwydd priodol i'r GIG er mwyn cynllunio. Mae'r amserlen hon yn osgoi ffocws blwyddyn mwy cyfyng, ac yn cyflwyno cyfleoedd i ddefnyddio hyblygrwydd ariannol i gefnogi trawsnewid a newid dros gyfnod hwy. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi dangos eu gallu i weithredu o fewn y cyd-destun hwn, ac fel y nodwyd yn gynharach, gallwn weld arwyddion cadarnhaol bod o leiaf ddau o'r sefydliadau mwy heriol yn dod yn nes at fod yn gynaliadwy. Mae tair blynedd yn darparu'r amserlen gywir i gefnogi dull gweithredu mwy strategol tuag at benderfyniadau gwasanaeth. Mae sefydliadau eisoes yn gwneud llawer o benderfyniadau sy'n cael effaith dda ymhell y tu hwnt i gyfnod tair blynedd, er enghraifft recriwtio staff newydd, ysgogi datblygiadau i wasanaeth neu fuddsoddi yn eu seilwaith megis ystadau neu systemau digidol.

Mae llawer o waith arloesi yn ymwneud â gwneud defnydd gwell o adnoddau sydd eisoes yn y system, er enghraifft newid modelau darparu gwasanaethau i gleifion allanol. Ariennir eraill gan ddyraniadau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac nid oes angen adennill costau. Mae gan sefydliadau'r GIG lawer o gyfleoedd i arloesi mewn ffyrdd nad ydynt yn golygu costau ychwanegol.

Rwy'n gobeithio y bydd y manylion yn fy llythyr yn rhoi'r sicrwydd ychwanegol sydd ei angen arnoch chi.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall